# Cyflwyniad ysgrifenedig cryno ar y pwnc o gynnig cartrefi i ffoaduriaid Wcráin

**At sylw: Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
**14/06/2022**

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

Yn yr ymateb hwn, rydym wedi canolbwyntio ar y cwestiynau sy'n gweddu orau â'n gwaith a lle byddai tystiolaeth CGGC yn darparu safbwynt unigryw.

- **Rôl awdurdodau lleol a'r trydydd sector mewn cynorthwyo i roi cynlluniau anheddu Wcráin ar waith.**

Mae mudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr yn bresennol ar bron bob cam o daith pobl Wcráin sy'n cyrraedd Cymru - yn eu helpu i drefnu teithio i'r DU, eu cyfarch mewn canolfannau croeso, eu gwahodd nhw i mewn i'w cartrefi, cynnig cwnsela, arweiniad ymarferol a chymorth, ac yn eu gwneud nhw'n rhan o'u cymunedau lleol. I rai sy'n cyrraedd, daw'r gwirfoddolwr y maen nhw wedi cysylltu ag ef i ddechrau yn bresenoldeb cyson yn eu bywydau sy'n rhoi tawelwch meddwl iddynt. Gall hyn fod yn arbennig o werthfawr mewn achosion lle y mae'n rhaid i unigolion symud ar draws ffiniau sirol ac yn ystod cyfnodau pontio, fel rhwng canolfannau croeso a llety mwy parhaol.

Mae'r trydydd sector yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol

i gefnogi'r cynlluniau anheddu. Mae ein sector yn darparu plethora o ganllawiau cyffredinol a gwasanaethau arbenigol, fel cymorth ieithyddol, cyfleoedd cymdeithasol, bancio, teithio, addysg, budd-daliadau, cyngor ar fewnfudo, iechyd meddwl, anabledd, gwasanaethau plant a menywod, ymhlith llawer o ran eraill. Mae'r sector yn ategu cymorth cyrff statudol drwy gynnig cyngor a datrysiadau wedi'u teilwra i unigolion, lledaenu gwybodaeth, ynghyd â brocera cyswllt â'r gymuned leol ar sawl achlysur.

Ochr yn ochr â mudiadau cenedlaethol a rhanbarthol hirsefydledig, mae llawer o grwpiau cymdeithas sifil a yrrir gan ddiben wedi ffurfio a bellach yn casglu rhoddion, yn cynnig cyngor ymarferol ac yn cysylltu â newydd-ddyfodiaid yn eu cymunedau. Fel yr ydym wedi'i weld drwy gydol y pandemig, mae cyflymder ac effeithiolrwydd gweithredu gwirfoddol lleol yn ei wneud yn rhan dyngedfennol o ymateb y genedl i unrhyw argyfwng, a rhagwelwn y bydd grwpiau lleol yn cyfrannu'n helaeth at gynorthwyo ffoaduriaid Wcráin yn gyson a'u hintegreiddio i mewn i gymdeithas Cymru. Ar wahân i fudd ymarferol yr help a gynigir, Mae'r grwpiau gwirfoddoli anffurfiol neu led-ffurfiol hynny yn cynnig cyfle i bobl leol weithredu a theimlo'n llai diymadferth yng ngŵydd trychineb, ac yn galluogi cysylltiad cymdeithasol go iawn rhyngddynt hwy a'r ffoaduriaid, yn unol â nodau Cymru o Gymunedau Cydlynus. Mae'r sector gwirfoddol ffurfiol yn cynorthwyo'r grwpiau hynny'n aml drwy gynnig cyngor ymarferol, hyfforddiant a'u cysylltu â gwasanaethau statudol.

Mae'r sector hefyd yn ymddwyn fel ffynhonnell o gyngor arbenigol i'r Llywodraeth, drwy ymgynghoriadau a chyfarfodydd, yn fwyaf arbennig drwy grŵp Cymorth y Trydydd Sector i Wcráin. Mae'r grŵp yn cwrdd bob wythnos ac wedi nodi pum prif ffrwd waith yn ddiweddar - cymorth mewn canolfannau croeso, diogelu menywod a phlant, mynediad at gyngor ac eiriolaeth, gweithredu cymunedol a chysylltu ac aduno teuluoedd. Croesawa CGGC y dull cydweithredol hwn o gynllunio system gymorth gydweithredol a chynhwysfawr. Mae'n bwysig nodi bod gallu'r sector i ymhél â'r trafodaethau hynny wedi'i gyfyngu gan y galw uchel am ddarparu gwasanaethau, a heb gyllid ychwanegol i gynyddu'r gallu, ni all llawer o fudiadau gyfrannu 'n strategol i'r graddau neu'r amlder y byddent yn dymuno, a byddai hyn yn ddefnyddiol.

- **Y gost o gynnig cymorth a gwasanaethau i bobl Wcráin sy'n cyrraedd Cymru a sut bydd y costau hyn yn cael eu talu.**

Mae'n anodd asesu'r costau o gynnig cymorth hirdymor i ffoaduriaid Wcráin yn y dyddiau cynnar hyn.

Mae llawer o fudiadau'r sector gwirfoddol wedi ehangu'r gwasanaethau cyfredol y maen nhw'n eu cynnig i ddiwallu anghenion ffoaduriaid sy'n cyrraedd o Wcráin, e.e. cyfieithu adnoddau, cyflogi staff sy'n siarad Wcreineg, hyfforddiant arbenigol. Caiff y rhan fwyaf o'r costau ychwanegol hyn eu hysgwyddo gan yr elusennau eu hunain.

Mae Cronfa Croeso Cenedl Noddfa yn ffynhonnell fechan o gyllid i rai, ond ni fyddai pob mudiad yn gallu elwa arno ac i fudiadau eraill, ni fyddai'n ddigon i dalu eu holl gostau.

Mae'n bwysig nodi bod y sector yn parhau i fod o dan gryn dipyn o bwysau wrth iddo ymdrin â chanlyniadau pandemig byd-eang sydd wedi cynyddu anghydraddoldebau a oedd eisoes yn bodoli mewn cymdeithas, costau byw cynyddol a chwyddiant. Dim ond cynyddu mae'r galw am wasanaethau'r sector wrth i'r cyllid brys o'r pandemig ddod i ben a phan amcanir y bydd rhoddion elusennol yn lleihau. Yn ogystal, mae'r diffyg cyllid a ddyrannwyd i gynghorau lleol i gefnogi unigolion sy'n cyrraedd drwy'r Cynllun Fisâu i Deuluoedd yn destun pryder, oherwydd bydd hyn yn debygol o roi mwy o bwysau ar ein sector ac nid ydym yn y sefyllfa orau i gynnig y prif gymorth i'r unigolion hynny. Mae pryder go iawn yn y sector o ran gallu yn y dyfodol. Byddai buddsoddiadau strategol yn helpu i liniaru rhywfaint o'r pwysau hynny ac yn galluogi mudiadau i gydlynu eu dull o weithio mewn partneriaethau er mwyn cyflawni canlyniadau gwell. Pan na dderbynnir digon o gyllid, gall hyn arwain yn aml at grwpiau sy'n gweithio'n anfwriadol ar wahân, pan na fydd digon o adnoddau staff i ffurfio, cydlynu a chynnal prosiectau cydweithredol â phobl eraill.

- **Problemau a phwysau sy'n deillio o gynlluniau adsefydlu ffoaduriaid eraill ac a all gwersi/arferion gorau gael eu rhannu.**

Mae'r sector gwirfoddol yn parhau i gynnig cymorth i unigolion sydd wedi cyrraedd drwy'r Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid a'r Cynllun i Adsefydlu Dinasyddion Affganistan, Cynllun Adsefydlu'r DU, a cheiswyr lloches sydd wedi cyrraedd drwy ffyrdd eraill. Er bod yr holl sector o dan bwysau, mae mudiadau arbenigol sy'n rhoi cymorth a chyngor i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn arbennig mewn taer angen am gyllid i ehangu eu gallu a

pharhau i gynnig gwasanaethau i’r holl ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy’n cyrraedd Cymru.

Mae CGGC yn cefnogi Cynghrair Ffoaduriaid Cymru yn eu galwad i sicrhau bod yr holl ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy’n cyrraedd Cymru yn cael eu cefnogi hyd eithaf ein gallu, fel ymrwymiad gwirioneddol i Gymru fel Cenedl Noddfa.